



## Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Ysgol Cilgerran**

**Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Cilgerran  
Stryd Cemaes  
Cilgerran  
Aberteifi  
SA43 2SB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

20/07/2023

## Cylch Meithrin Ysgol Cilgerran

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Sesiynol
Person Cofrestredig	Rayanne Rogers
Lleoedd cofrestredig	16
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Mae lleoedd Dechrau'n Deg ar gael
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

### **Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

<a href="#"><u>Llesiant</u></a>	Da
<a href="#"><u>Gofal a Datblygiad</u></a>	Da
<a href="#"><u>Yr Amgylchedd</u></a>	Da
<a href="#"><u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u></a>	Da

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## **Crynodeb**

Mae'r plant wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent wedi meithrin cydberthnasau agos â'u cyfoedion a gyda'r aelodau o staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gyfathrebu a gwneud dewisiadau, a chaiff sylw ei roi bob amser i lais y plentyn.

Mae bron pob aelod o'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo llesiant, diogelwch a ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu hunain ac yn rhyngweithio â nhw mewn modd gofalgarn a chadarnhaol iawn. Maent yn cynllunio'n dda i fodloni gofynion a diddordebau'r plant.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig sylfaen adnoddau sy'n bodloni gofynion unigol a chyfnodau datblygiad y plant. Mae ardal awyr agored briodol ar gael i'r plant ei defnyddio bob dydd.

Mae'r arweinydd yn dangos sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth da. Mae'r arweinydd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r arweinydd yn adolygu ansawdd gofal y gwasanaeth. Mae ganddo bartneriaethau cryf â'r rhieni, y gofalwyr a'r ysgol ar y safle.

Mae'r plant yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'u cyfoedion. Maent yn egnïol ac yn dangos eu bod yn mwynhau eu chwarae. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn amlwg yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn hoffi'r rhyddid i ddewis ardaloedd chwarae yn yr ystafell ac yn yr ardal chwarae awyr agored. Mae'r plant yn dysgu i ddeall eu teimladau ac i ddangos boddhad. Er enghraifft, mae'r plant yn gwenu ac yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd yn ystod amser byrbryd. Mynegodd un plentyn yn hyderus ei fod yn teimlo'n '*grumpy*' yn ystod amser byrbryd.

Mae cyfleoedd da i'r plant leisio barn, ac maent yn cael cyfleoedd cadarnhaol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Er enghraifft, gall y plant ddewis gweithgareddau a symud o amgylch y lleoliad. Maent yn cyfathrebu yn hyderus â staff a'u cyfoedion, ac mae eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Gofynnodd un plentyn i aelod o staff a allai eistedd wrth ei ymyl yn ystod amser byrbryd. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi, gan sicrhau eu llesiant unigol. Caiff eu hanghenion a'u dewisiadau eu hystyried. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, daethpwyd â moch cwta anwes yr ysgol i mewn i'r plant gael eu gweld; cafodd y plant nad oeddent yn barod i roi mwythau i'r anifeiliaid anwes eu parchu. Mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad. Roeddent yn gwenu wrth iddynt gael eu canmol am ymateb i gwestiynau yn ystod sesiwn rhif gydag aelod o'r staff.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn agored. Maent yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cymdeithasu mewn modd cyfeillgar. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eraill. Er enghraifft, gwelsom fod y plant yn fwy na pharod i gymryd eu tro ar y teganau reidio yn yr ardal awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall sut i gymryd eu tro, aros, a rhannu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dangos bod y plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da. Wrth iddynt chwarae yn yr ardal awyr agored, gwelsom blentyn ac aelod o staff yn chwarae gyda'i gilydd, gan basio pêl yn ôl ac ymlaen, ac roedd pâr arall yn neidio i mewn ac allan o gylchoedd lliwgar yn hapus. Mae'r plant yn gweithio gyda'i gilydd i dacluso'r adnoddau ar ddiwedd y sesiwn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr gweithgar ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau. Maent yn dangos diddordeb a chyffro wrth iddynt ddefnyddio chwyddwydr i edrych ar gasgliad o gregyn. Mae lluniau a samplau o'u gwaith yn dangos eu bod yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd da y tu mewn ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, creu darn o waith celf o granc gan ddefnyddio eu holion dwylo, coginio cremogau, defnyddio cyllyll i dorri ffrwythau yn annibynnol, adeiladu car allan o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a mynd ar ymweliadau a drefnwyd ar eu cyfer.

Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu sgiliau corfforol, sgiliau cymdeithasol a sgiliau emosiynol a gallant ddilyn eu diddordebau yn dda. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth i ryw raddau drwy ddefnyddio'r toiled, golchi a sychu eu dwylo a thrwy fwydo eu hunain.

## Gofal a Datblygiad

Da

Mae llawer o'r staff yn gymharol newydd i'w rolau. Maent yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac mae bron pob un ohonynt yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Maent yn dilyn arferion glanhau a hylendid cadarn. Er enghraifft, diheintio'r byrddau cyn ac ar ôl amser byrbryd, golchi eu dwylo'n rheolaidd, yn ogystal â sicrhau bod y teganau a'r adnoddau yn cael eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd. Maent yn sicrhau bod cofnodion ysgrifenedig ar gael i ddangos bod y teganau a'r adnoddau yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Nid yw'r staff yn dilyn y weithdrefn ar gyfer newid cewynnau bob amser. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Mae llawer o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac mae rhai ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd. Mae'r staff yn dilyn canllawiau priodol wrth weini bwyd ac wrth helpu'r plant i fynd i'r toiled. Maent yn darparu byrbryd iach ac mae'r plant yn mwynhau bwyta, sgwrsio a chymdeithasu â'u cyfoedion yn ogystal â'r staff wrth y bwrdd. Mae'r staff yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n gyson, er enghraifft drwy sicrhau bod y plant yn cymryd gofal wrth fwyta a thrwy osod mat diogelwch ar waelod y llithren yn yr ardal awyr agored. Maent yn deall y gweithdrefnau diogelu ac yn gallu esbonio trefniadau'r lleoliad yn hyderus.

Mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn ymateb yn dda i safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Maent yn rhyngweithio'n dda iawn ac yn dangos anogaeth, cynhesrwydd a charedigrwydd, yn ogystal â sensitifrwydd i anghenion a phrofiadau'r plant unigol. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gwybod pryd i ymyrryd i'w hatgoffa am bethau penodol. Er enghraifft, mae'r staff yn atgoffa'r plant o'r angen i fod yn garedig â'u traed wrth eistedd ar y mat yn ystod amser stori. Dywedodd yr arweinydd wrthym ei fod yn ystyried diddordebau a cheisiadau'r plant wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau i wella dysgu'r plant.

Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant y maent yn gofalu amdanynt. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd eu colli yn ystod amser byrbryd i ddatblygu sgiliau annibyniaeth y plant ymhellach gan fod y ffrwythau yn cael eu paratoi a'r dŵr a'r llaeth yn cael eu harllwys ar eu cyfer. Mae'r staff wedi dechrau'r gwaith o gynllunio'r camau nesaf ac yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau cynnig noson rieni. Mae ganddynt systemau

ar waith i ddarparu gofal a chyfleoedd addas i blant ag anghenion ychwanegol ac maent yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau ymyriadau cynnar o ran rhoi cymorth ac arweiniad ychwanegol.

## Yr Amgylchedd

Da

Mae'r lleoliad ar dir yr ysgol. Mae'n darparu amgylchedd glân, cynnes a diogel. Mae ganddo lefel uchel o ddiogelwch ac mae'r staff yn sicrhau ei fod yn cael ei gadw dan glo bob amser. Mae hyn yn golygu y gall y plant symud yn annibynnol ac yn ddiogel o amgylch yr ardal dan do yn ogystal â'r ardal awyr agored amgaaedig. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod asesiadau risg dyddiol a chyffredinol, ac asesiadau risg tân, yn cael eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'n cynnal ymarferion tân yn rheolaidd a chaiff yr ymarferion hyn eu cofnodi'n briodol. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y gymhareb rhwng y staff gofal a'r plant yn gywir ac yn goruchwyllo'r plant yn dda iawn. Gall y plant ddefnyddio'r toiledau yn annibynnol. Mae llyfr ymwelwyr, rota, cofrestr plant a chofnodion cofrestru staff ar waith, sy'n sicrhau diogelwch y plant a'r lleoliad.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y plant yn cael cynnig amgylchedd chwarae a dysgu pwrpasol. Mae'r amgylchedd yn creu ymdeimlad o berthyn gyda phegiau enwau unigol i'r plant ac arddangosfeydd o gyflawniadau'r plant gan gynnwys eu gwaith celf. Mae'r amgylchedd dysgu, dan do ac yn yr awyr agored, yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan fod yr adnoddau sydd ar gael iddynt yn cael eu cadw o fewn cyrraedd i bob plentyn. Ceir adnoddau sy'n hyrwyddo diwylliannau ac amrywiaeth, sy'n cynnwys doliau a llyfrau.

Mae'r arweinydd yn darparu dewis priodol o adnoddau da i'r plant, ond nid oes llawer o ddarnau rhydd nac adnoddau naturiol. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddigonol ac mae digon o le i'r plant symud o gwmpas yn rhydd. Mae cegin fwd, strwythur dringo plastig a llithren, peli a theganau reidio, yn ogystal â hambwrdd dŵr a thywod ar gael iddynt.

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ac mae'n ei rhannu â'r staff, y rhieni a defnyddwyr y gwasanaeth drwy ddarparu polisïau a datganiad o ddiben clir sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth. Mae'r arweinydd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n gwneud ymdrech benodol i roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau i'r lleoliad ac mae'n cadw cofnod o'r plant a'r staff sy'n bresennol bob diwrnod. Mae yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus wedi'i drefnu.

Mae gan arweinydd y lleoliad ddealltwriaeth dda iawn o'i gyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg ac i gyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae wedi adolygu ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'n gofyn am adborth gan y rhieni, y plant a'r staff. Mae'r arweinydd yn gwneud ymdrech benodol i gael cyllid a grantiau i ddatblygu'r lleoliad ymhellach. Mae wrthi'n cael gafael ar gyllid i wella'r ardal awyr agored.

Mae arweinydd y lleoliad yn trefnu'r staff yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'n cynnal cyfarfodydd wythnosol, sesiynau goruchwyllo rheolaidd ac arfarniadau blynyddol gyda'r staff. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn un o gryfderau'r gwasanaeth a'i fod yn rhoi cyfle iddynt sôn am unrhyw faterion neu bryderon. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd arweinydd y lleoliad fod yr holl ffeiliau staff yn cynnwys y gwiriadau addasrwydd gofynnol ar gyfer pob cyflogai, gan gynnwys staff banc.

Mae'r arweinydd wedi creu cysylltiadau ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae wedi meithrin partneriaeth gadarn a deallus â'r ysgol. Mae hyn yn darparu sylfaen ar gyfer system bontio gadarn a llwyddiannus i'r plant pan fyddant yn symud ymlaen. Mae hefyd yn cymryd rhan yn y Ffair Haf ac mewn digwyddiadau eraill. Gwnaethom siarad â'r rhieni ar ddiwrnod yr ymweliad a oedd yn hapus iawn â'r gwasanaeth ac yn dweud bod eu plant yn hapus iawn hefyd, *"They're brilliant. My child has come on so well here. They're really happy and settled here. Staff are very welcoming."*

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.



<b>Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella</b>		
<b>Rheoliad</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>Statws</b>
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
30 (1) (a) Atod3.06	Cadw cofnodion	Cyflawnwyd
28 (2) (a) [ii]	Roedd ffeiliau'r staff yn anghyflawn	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

<b>Safonau Gofynnol Cenedlaethol</b>	
<b>Safon</b>	<b>Argymhelliad/argymhellion</b>
Safon 10 - Gofal lechyd	Sicrhau bod y staff yn dilyn y weithdrefn ar gyfer newid cewynnau yn unol â'r polisi.

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

<b>Arferion Gorau</b>
<b>Argymhelliad/argymhellion</b>
Sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i archwilio wrth chwarae gan ddefnyddio darnau rhydd ac adnoddau naturiol.
Sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i hyrwyddo eu hannibyniaeth ymhellach.

Graddau	Ystyr y graddau
<b>Rhagorol</b>	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
<b>Da</b>	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
<b>Digonol</b>	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
<b>Gwael</b>	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 18/09/2023**